

## Datganiad sy'n Diweddu'r Parth Atal Ffliw Adar Cymru Gyfan

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal asesiad risg pellach o dan erthygl 6(1) o Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) Gorchymyn 2006<sup>1</sup> ("y Gorchymyn") a datgan bod y Parth Atal Ffliw Adar a wnaed ar 17 Ebrill 2023<sup>2</sup> ac sydd wedi bod yn gymwys ers y dyddiad hwnnw, drwy hyn yn cael ei ddirymu'n ffurfiol yn unol ag erthygl 4(1)(b) o'r Gorchymyn am 12:00 ar 4 Gorffennaf 2023.

2. Pan gaiff y Parth Atal Ffliw Adar (y cyfeirir ato ym mharagraff 1) ei ddirymu (yn unol â pharagraff 1) ni fydd yn gymwys yng Nghymru mwyach.

Llofnodwyd:

Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol, ar rhan y Gweinidogion Cymru

Dyddiedig: 12:00 ar 4 Gorffennaf 2023

Mae copïau o'r Datganiad hwn ar gael drwy

<https://llyw.cymru/ffliw-adar>

---

<sup>1</sup> O.S. 2006/2927 (W. 262).

<sup>2</sup> Cafodd y Parth Atal Ffliw Adar (AIPZ) ei sefydlu ar gyfer Cymru gyfan gan y Datganiad o Barth Atal Ffliw Adar (y datganiad gwreiddiol) ar 17 Hydref 2022. Cafodd y datganiad gwreiddiol ei ddiddymu a'i amnewid mewn Datganiad pellach ar 2 Rhagfyr 2022 ('Datganiad Rhagfyr'). Cafodd Datganiad Rhagfyr ei ddiddymu a'r AIPZ ei amnewid mewn Datganiad pellach ar 7 Rhagfyr 2022 ('Datganiad Pellach Rhagfyr'). Cafodd Datganiad Pellach Rhagfyr ei ddiddymu a'i amnewid gan ddatganiad a wnaethpwyd ar 9 Ionawr 2023 ('Datganiad Ionawr'). Mae Datganiad Ionawr wedi ei ddirymu ac mae AIPZ Cymru gyfan yn parhau i fod yn weithredol trwy Ddatganiad a wnaethpwyd ar 17 Ebrill 2023.